

Cysylltwch â'ch Partneriaeth Natur Leol

Dysgwch fwy am fyd natur yn eich ardal a sut y gallwch gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau lleol sy'n seiliedig ar natur. Mae'n rhad ac am ddim ac yn syml i'w wneud. Rhowch gynnig arni drwy ymuno â phobl a grwpiau o'r un anian â chi. Yn anad dim, gwnewch bethau yn eich amser eich hun – gall hyd yn oed ymrwymo ychydig o amser wneud gwahaniaeth mawr.

Contact your Local Nature Partnership

Find out more about the nature in your area and how you can get involved in local nature-based events and activities. It's free and simple to do. Dip your toes in and join up with like-minded people and groups. Above all, take it at your own pace – even a small time commitment can make a difference.



Sganiwch y cod QR i gysylltu â'ch Partneriaeth Natur Leol

Scan the QR code to get in touch with your Local Nature Partnership

Partneriaethau o sefydliadau ac unigolion sy'n cydweithio i helpu byd natur yn eu hardal leol yw Partneriaethau Natur Lleol. Gyda ch cefnogaeth chi, gall Partneriaethau Natur Lleol adeiladu Cymru gyfoethog ei natur.

Local Nature Partnerships are partnerships of organisations and individuals working together to help nature in their local area. With your support, Local Nature Partnerships can build a thriving nature-rich Wales.

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
Local Places for Nature

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Partneriaethau Natur Lleol yng Nghymru

Rhwydwaith sy'n ymroddedig i adferiad byd natur



Local Nature Partnerships in Wales

A network dedicated to nature recovery

Nature is precious and we need more of it. So, it's good to know there are Local Nature Partnerships across Wales, all dedicated to protecting and enhancing nature.

Mae natur yn werthfawr ac mae arnom angen mwy ohoni. Felly, mae'n dda gwybod bod Partneriaethau Natur Lleol ledled Cymru, i gyd wedi ymrwymo i warchod a gwella natur.









Sut alla i helpu natur yn fy ardal?

Cysylltwch â chydlynydd Partneriaeth Natur Leol am gymorth, cyngor a chysylltiadau i wneud eich prosiect natur yn llwyddiant ac i helpu i greu cymunedau iachach a mwy cysylltiedig.

How can I help nature in my area?

Contact your Local Nature Partnership coordinator for support, advice, and connections to make your nature project a success and help build healthier, connected communities.

Dewch yn rhan o'r gymuned natur

Gall unrhyw un gymryd rhan mewn natur—beth bynnag eich amser, diddordeb neu brofiad. Croeso i bob oed a gallu—dim ond brwdfrydedd a rhywfaint o'ch amser sydd ei angen.

Be part of the nature community

Anyone can get involved with nature whatever your time, interest, or experience. All ages and abilities welcome—just bring enthusiasm and a little time.

Examples include:

1. **Wildlife gardening**- growing pollinator friendly plants is an easy way to help nature
2. **Feeding the birds** and putting up a nest box
3. **Noticing what you see** and posting on social media
4. **Joining a local Friends of Nature group** who look after a local park or green space
5. **Volunteering** for a nature charity

Dyma rai enghreifftiau:

1. **Garddio bywyd gwyllt** – mae tyfu planhigion sy'n denu pryfed peillio yn ffordd hawdd o helpu natur
2. **Bwydo'r adar** a gosod blwch nythu
3. **Sylwi ar yr hyn ydych yn ei weld** a'i bostio ar y cyfryngau cymdeithasol
4. **Ymuno â grŵp Cyfeillion Natur lleol** sy'n gofalu am barc neu fan gwyrdd lleol
5. **Gwirfoddoli** i helpu elusen natur